# Recordio deialog ac adroddiad

## Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â Recordio deialog ac adroddiad mewn ffordd sy'n cyfleu naws a gwybodaeth sy'n gyson â bwriadau'r cleient. Gellir recordio'r ddeialog o'r newydd neu ei hailrecordio a'i hadnewyddu pan nad oes modd defnyddio recordiadau gwreiddiol. Mae'n cynnwys cydweithio gyda thalentau o amrywiol anianau a rheoli hynny.

Dylai'r Safon hon fod yn berthnasol i unrhyw un sy'n gysylltiedig â recordio neu adnewyddu deialog.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. datblygu gyda chleientiaid ddulliau gweithredu gyda deialog sy'n ystyried eu gweledigaeth a'u syniadau
2. gwerthuso deunydd sy'n bodoli eisoes o ran ansawdd y sain yn erbyn safonau artistig a thechnegol disgwyliedig
3. adolygu'r amserlen a'r gost i sicrhau bod modd recordio neu ail-recordio'r deunydd gofynnol a'i ymgorffori o fewn cyllidebau cleientiaid
4. cynghori pobl berthnasol ar effaith recordiadau newydd ar y gyllideb, yr amserlen a'r gofynion creadigol
5. cadw ymagwedd ddiplomyddol a phroffesiynol tuag at artistiaid sy'n recordio, gan addasu eich ffordd o weithio yn ôl eu hwyl a'u hanian
6. addasu lefel, cydbwysedd, ansawdd tonyddol, persbectif ac ystod ddeinamig i gyfleu gwybodaeth a naws wrth adrodd ac i gyd-fynd â sefyllfa, symudiadau a hwyl cymeriadau
7. pennu addasrwydd y ddeialog yn erbyn gofynion, gan adolygu gyda chydweithwyr a chleientiaid a yw'n cael yr effaith fwriadedig
8. creu cymysgedd gyda sain arall sy'n cadw'r nodweddion a gyflawnir gyda thraciau llais yn unig
9. gwneud penderfyniadau critigol am ansawdd y sain derfynol yn erbyn safonau artistig a thechnegol disgwyliedig
10. cynnal diogelwch ar gyfer ffeiliau a deunyddiau eraill yn unol â gofynion y cwmni

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. sut i gydweithredu a chydweithio gyda chleientiaid mewn sgyrsiau creadigol ynghylch eu syniadau
2. arddull y llais sy'n ofynnol ar gyfer cymeriadau ac adroddwyr
3. sut i ddatblygu syniadau sy'n helpu i ateb gofynion creadigol
4. technegau a gweithdrefnau ar gyfer trin sain
5. sut i asesu ansawdd gweledol a/neu sain yn ôl safonau artistig a thechnegol disgwyliedig
6. nodweddion ansawdd tonyddol a phersbectif
7. gweithrediad y stiwdio sain
8. fformatau recordio, cydamseru a systemau cyfeirio
9. safonau gwylio presennol a safonau proffesiynol, cenedlaethol a rhyngwladol presennol o ran darparu a datganiadau o arfer gorau ar gyfer yr ystod o lwyfannau a chynnwys
10. pryd mae'n briodol ail-recordio ac adnewyddu deialog neu adrodd a'r goblygiadau ar gyfer gwneud hynny
11. nodweddion lleisiau mewn gwahanol amgylcheddau acwstig a phan fydd pobl yn ymddwyn mewn ffyrdd amrywiol
12. pwysigrwydd gallu clywed deialog yn enwedig mewn perthynas â'r nam posibl ar glyw poblogaeth sy'n heneiddio
13. y defnydd o sain fono, stereo ac aml-sianel i wireddu syniadau creadigol
14. galluoedd offer recordio sain a gweithdrefnau ar gyfer ei ddefnyddio
15. technegau meicroffon
16. technegau ar gyfer amseru a chydamseru cywir
17. sut i adnabod y ffyrdd mae artistiaid yn hoffi gweithio a'u hoffterau o ran trefn sesiwn
18. y gwahaniaethau rhwng lleferydd ac adrodd a sut maent yn cymysgu
19. ffactorau iechyd a diogelwch ar gyfer yr holl offer a'r gweithle
20. systemau'r cwmni ar gyfer storio, arbed copïau wrth gefn a diogelwch

SKSPP15

Recordio deialog ac adroddiad

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | ScreenSkills |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 31 Ion 2017 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 31 Ion 2020 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Creative Skillset |
| **RCU gwreiddiol** | SKSPP15 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Gweithwyr proffesiynol ôl-gynhyrchu |
| **Cyfres/Set** | Ôl-gynhyrchu |
| **Geiriau Allweddol** | Ôl-gynhyrchu, Golygu, Adrodd, Deialog, Cofnodi, Adnewyddu |